


CIWB

# Edrych yn ôl



# Helo o ...?

Helo, Sam. Sut wyt ti?

Dw i'n cael amser da yma. Rydym ni'n aros mewn carafan ar faes carafanau mawr ac mae cwrt tennis, pwall nofio a bowllo deg yma. Gwych! Ddoe, es i i'r sŵr a gwelais i lawer o anifeiliaid diddorol. Roedd y pengwiniaid yn ddoniol iawn.

Ddydd Sul, es i i weld castell. Roedd pobl mewn hen ddillad yn gwneud bwyd yno. Bwytais i'r bwyd - ych a fi!

Ddydd Sadwrn, es i i nofio ar lan y môr Hyfryd!

Wela i di ddydd Sadwrn.

Lyn

O.N. Wyt ti'n dod i aros dros y penwythnos?



Sam Davies  
92 Y Ffordd  
Fawr  
Y Drenowysedd  
Powys  
SY21 1QY

## Help

### Geirfa

aros	to stay
bowllo	tenpin
deg	bowling
llawer o	lots of
diddorol	interesting

doniol	funny
ych a fi!	ugh!
ar lan y môr	at the seaside
O.N.	P.S.

## ❶ Beth ydy'r geiriau Cymraeg?

castle

penguins

# Beth wnest ti?



Amgueddfa Llanaber



AmgueddfaLlanaber.com

Hafan

Gwybodaeth

Lluniau

Cwestiynau a Cysylltu â ni

## Amgueddfa Llanaber

Dros y penwythnos ... ond ... pa  
flwyddyn?

Darllenwch am y bobl yma. Pryd oedd y bobl yma'n byw? Beth ydy'r flwyddyn?

<b>Andrew</b> 	Es i i'r siop ddillad i brynu trowsus newydd ond roedd problem - doedd dim trowsus newydd yn y siop!
<b>Bronwen</b> 	Nos Sadwrn, eisteddais i yn yr ystafell fyw, yn gwrando ar y radio gyda'r teulu.
<b>Pamela</b> 	Dawsiais i yn Neuadd y Dre nos Sadwrn. Roedd y gerddoriaeth yn wych. Noson dda!
<b>Gwen</b>	



Es i i siopa fore Sadwrn. Es i i'r siop fwyd i brynu jam; es i i'r siop fara i brynu bara (bara brown eto! Dw i ddim yn hoffi bara brown.) Yna, es i i'r siop ffrwythau i brynu ffrwythau – dim bananas, dim orennau – dim ond afalau. Prynais i ddau afal.

**Ann**



Yn y prynhawn, cerddais i ar lan y môr gyda Mildred – mae hi'n dod o Birmingham. Siaradon ni.

**Hywel**



Yn y bore, helpais i Mam yn yr ardd. Roedd e'n hwyl achos dw i'n mwynhau garddio. Dw i'n mwynhau bwyta bwyd o'r ardd hefyd!

Yn y prynhawn, chwaraeais i bêl-droed gyda George a Peter – y faciwîs. Roedd e'n wych!

Yna, es i i weld Tad-cu a Mam-gu. Ces i swper gyda nhw – wy ar dost.

Diwrnod da!

**Jac**



Es i i'r dref gyda fy ffrindiau. Aethon ni i'r 'pictiws' i weld cartwnau. Yna, aethon ni i dŷ John i wrando ar recordiau.

Pryd oedd y bobl yma'n byw? Dewiswch **un** flwyddyn.

**1900?**

**1860?**

**1944?**

**1999?**

## Help

### Geirfa

amgueddfa	museum
pa flwyddyn?	what year?
doedd dim	there were no
ystafell fyw	living room
Neuadd y Dre	the Town Hall
dim ond	only
glan y môr	seaside
siaradon ni	we talked
faciwîs	evacuees
tad-cu	grandfather
mam-gu	grandmother
aethon ni	we went

### ❶ Beth ydy'r geiriau Saesneg?

tost

bara brown

orennau  
cartwnau

# Ffotograffau

## Fi

Edrychwrch ar y ffotograff yma. Dyma fi yn chwarae *bossaball*.



Es i i lan y môr ddydd Sadwrn a chwaraeais i gêm newydd – *bossaball* – gêm gyffrous iawn.

Mae'r gêm fel pêl-foli, pêl-droed, capoeira a neidio. Mae dau dîm yn chwarae ar gwrt arbennig – maen nhw'n chwythu'r cwrt i fyny (fel castell neidio!) ac mae trampolîn ar ddau hanner y cwrt.

Yn gyntaf, dysgais i sut i chwarae *bossaball*. Dysgais i'r rheolau a'r sgiliau.

Yna, chwaraeais i'r gêm gyda ffrindiau newydd. Ciciais i'r bêl ... bwrais i'r bêl ... sgoriais i! Bwrais i'r bêl eto ... neidiais i ar y trampolîn ... bwrais i'r bêl eto ... neidiais i eto ... syrthiais i - ond dim ots – roedd e'n hwyl. Roedd e'n llawer o hwyl! Mwynheuais i'n fawr.

Mae llawer o bobl yn chwarae *bossaball* yn Sbaen. O, dw i eisiau chwarae eto!



## Help

### Geirfa

cwrt	court
arbennig	special
chwythu	to blow
yn gyntaf	first
rheolau	rules
bwrais i	I hit
dim ots	never mind
yn fawr	very much

# Ni

## Parti Pen-blwydd

Edrychwr ar y ffordograff. Dyma barti pen-blwydd Matt.





Aethon ni i saethu peli paent yn y ganolfan peli paent ac roedd o'n hwyl. Roedd o'n **llawer** o hwyl.

Dalion ni'r bws ac yna cerddon ni i'r ganolfan peli paent. Gwisgon ni oferôls – achos mae'r peli paent yn marcio'r dillad.

Saethon ni'r peli paent am awr. Waw – dyna hwyl! Yna, dalion ni'r bws eto – i dŷ Matt.

Bwyton ni fwyd – pizzas a sglodion a digon o gacen pen-blwydd. Gwylion ni ffilm a chwaraeon ni gemau ar y cyfrifiadur tan un ar ddeg o'r gloch y nos ac yna aethon ni adre.

Diwrnod gwych! Mwynheuon ni'n fawr.

## Help

Geirfa

saethu      to shoot

peli paent      paint balls

canolfan	centre
dalion ni	we caught
awr	hour
dyna ...	what a ...
diwrnod	day

## ❶ Beth ydy'r geiriau Cymraeg?

photographs

volley ball

trampoline

skills

Spain

overalls

games

# Trip ysgol

Rydych chi'n mynd i wyllo ffilm. Dyma ychydig o help i chi, os ydych chi eisiau help.


## Help

Geirfa	
diwetha	last
aethon ni	we went
Fictoraidd	Victorian
hardd	beautiful
cyfoethog	rich
pethau	things
lle Tân	fireplace
ystafell ymolchi	bathroom
cwpwrdd	cupboard
yn fawr	very much

# Pa flwyddyn?

Edrychwch ar y blynnyddoedd yma. Beth ydy'r blynnyddoedd yma yn Gymraeg?

Ewch i Tasg 1.



Defnyddiwch y blynnyddoedd yma i ateb y cwestiynau isod.

facebook

Dechreuodd Facebook.

**Pa flwyddyn?**



Daeth y ffilm *Harry Potter and the Philosopher's Stone* i sinemâu Prydain.

### Pa flwyddyn?

### Mileniwm newydd



Dechreuodd y mileniwm newydd. Roedd llawer o bartion. Roedd llawer o dân gwylt. Roedd llawer o hwyl.

### Pa flwyddyn?

### Laika



Aeth ci o'r enw Laika i'r gofod mewn roced o'r enw Sputnik 2.

### Pa flwyddyn?

### Apollo



Aeth tri dyn – Neil Armstrong, Buzz Aldrin a Michael Collins – i'r Lleuad. Teithion nhw yn Apollo 11.

Cerddodd Neil Armstrong ar y Lleuad ac yna cerddodd Buzz Aldrin ar y Lleuad. Roedd Michael Collins yn teithio o gwmpasy Lleuad.

### **Pa flwyddyn?**

### **Y Titanic**



Roedd y Titanic yn llong fawr, grand ac roedd hi'n mynd i Efrog Newydd yn America.

Gadawodd hi Belfast am wyth o'r gloch ar 2 Ebrill. Teithiodd hi i Southampton.

Cyrhaeddodd hi Southampton ar 3 Ebrill. Yna, gadawodd hi Southampton ganol dydd ar 10 Ebrill.

Teithiodd hi am bum diwrnod ond yna, ar 15 Ebrill, aeth hi o dan y môr. **Pa flwyddyn?**

### **Guto Ffowc**



Roedd Guto Ffowc yn Babydd ac roedd e eisiau lladd James 1, y brenin. Triodd Guto Ffowc ladd James.

### **Pa flwyddyn?**

### **The Beatles**



Roedd pedwar dyn yn canu yn The Beatles – Ringo Starr, Paul McCartney, John Lennon a George Harrison. Roedden nhw'n dod o Lerpwl ac roedden nhw'n enwog iawn, iawn. Roedden nhw'n rhif un yn y siartiau gyda *She Loves You* yn y flwyddyn yma. Roedd y gân yma'n rhif un am chwe wythnos.

### **Pa flwyddyn?**

### **Y Gemau Olympaidd**



Dechreuodd y Gemau Olympaidd yn 776 C.C. yn Olympia, Groeg. I ddechrau, roedd dynion (dim merched!) yn rhedeg. Yna, ar ôl peth amser, rodden nhw'n rhedeg, reslo, bocsio, neidio, taflu a rasio cerbydau rhyfel.

Ond dechreuodd y Gemau Olympaidd modern yn Athens. Roedd dynion (dim merched!) yn beicio, gwneud athletau, gymnasteg a saethyddiaeth, rhedeg, neidio, taflu, hwylio, saethu, chwarae tennis, codi pwysau a reslo.

### **Pa flwyddyn?**



Daeth y Gemau Olympaidd i Lundain.

### **Pa flwyddyn?**

Help

## Geirfa

tân gwylt	fireworks
o'r enw	named
diwrnod	day
gofod	space
o gwmpas	around
Pabydd	Roman Catholic
lladd	to kill
rhif	number
C.C.	B.C.
ar ôl	after
peth amser	some time
taflu	throwing
cerbydau rhyfel	chariots
saethyddiaeth	archery
saethu	shooting
hwyliau	sailing

codi

lifting

pwysau

weights

## ❶ Beth ydy'r geiriau Cymraeg?

cinemas

millennium


parties

rocket

ship

it left

# Canu ar The Voice



## Beth ydy dy enw di?

Joe Woolford ydw i.

## Ble wyt ti'n byw?

Dw i'n byw yn Rhuthun, Gogledd Cymru.

## I ba ysgol est ti?

Es i i Ysgol Pen Barras, Rhuthun – ysgol Gymraeg – ac i Ysgol Brynhyfryd.

## Beth wyt ti'n wneud rŵan?

Dw i'n gweithio yn Ysgol Brynhyfryd – yn yr adran chwaraeon – a dw i'n canu.

## Pa fath o gerddoriaeth wyt ti'n hoffi?

Dw i'n hoffi cerddoriaeth yr 80au a'r 90au.

## Pryd dechreuaist ti ganu?

Dechreuais i rapio yn 13 oed.

## Beth wyt ti'n hoffi gwneud?

Dw i'n hoffi gwrando ar gerddoriaeth – dw i wrth fy modd yn gwrando ar gerddoriaeth!  
Dw i'n dysgu chwarae'r gitâr rŵan a dw i'n mwynhau'n fawr.

## Beth wnest ti yn 2015?

Es i ar *The Voice*.

## Ar ba dîm est ti?

Es i ar dîm Rita Ora.

## Pam dewisaist ti Rita Ora?

Dewisais i Rita Ora achos mae hi'n ifanc ac yn dalentog a hefyd roeddwn i'n meddwl, "Bydd hi'n help mawr i mi."

## Beth ganaist ti ar The Voice?

Canais i "Lights" (Ellie Goulding) yn y *blind audition*, yna, yn y rownd nesaf, canais i "I wont give up" (Jason Mraz). Yna, yn y rownd nesaf, canais i "Hey Ya" (Outkast) ac yna "Don't wake me up" (Chris Brown). Yn y semi ffeinal, canais i "Jealous" (Labrinth).

## Beth wnest ti rhwng pob rhaglen?

Ymarfer! Roedd rhaid ymarfer llawer ond weithiau es i allan gyda'r cystadleuwyd eraill. Aethon ni allan am fwyd ac aethon ni i siopa ac roedd o'n wych. Roedd pobl yn dod i siarad â ni ac roedden nhw'n gofyn, "Ydych chi ar *The Voice*? Roedd o'n ddoniol – ond roedd o'n neis hefyd.

## Est ti i weld Rita Ora yn performio?

Do, es i weld hi a Charli XCX yn perfformio yn yr 02 Empire yn Sheppard's Bush. Roedd y gig yn anhygoel. Roedd Rita a Charli XCX yn wych a dysgais i lawer.

## Berfformiaist ti gyda Rita Ora?

Do, roedd o'n anhygoel!

## Beth fwynheuaist ti am y profiad o ganu ar *The Voice*?

Popeth!

## Beth wyt ti'n feddwl o'r profiad?

Roedd o'n wych ond roedd rhaid i mi weithio'n galed i gyrraedd *The Voice*. Gweithiais i'n galed am flynyddoedd. Pan oedd pobl yn dweud, "Na!" roeddwn i'n trio eto. Os ydych chi'n gweithio'n galed byddwch chi'n cael beth rydych chi eisiau.

## Beth wyt ti eisiau gwneud yn y dyfodol?

Dw i eisiau gweithio ym myd cerddoriaeth. Hoffwn i deithio'r byd; hoffwn i berfformio; hoffwn i ysgrifennu caneuon. Dw i'n mynd i weithio'n galed eto i drio gwneud hyn.

## Pob lwc i ti, Joe.

Diolch yn fawr iawn

## Help

### Geirfa

adran	department
dewisaist ti	did you choose
ifanc	young
wnest ti	did you
ymarfer	to rehearse
cystadleuwyr	competitors
anhygoel	awesome
profiad	experience
popeth	everything
caled	hard
blynnyddoedd	years
os	if
byddwch chi	you will
ym myd	in the world of
caneuon	songs

# Noson anhygoel

22 Awst, 2015

**Nos Sadwrn, 11.30 y nos**

Noson anhygoel!

Es i i barti yn y castell gyda Liam, Kitty, David ac Ifan – parti pen-blwydd Sofia.

Roedd y parti'n grêt. Roedd llawer o fwyd blasus yno ac roedd y gerddoriaeth yn wych. Roedd pawb yn cael amser gwych. Bwyton ni fwyd parti; dawsion ni; siaradon ni; chwaraeon ni gêm. Yna, ar ôl chwarae'r gêm, dwedodd Liam, "Beth am fynd i chwilio am ysbrydion?"

---

Beth?!?!?! Chwilio am ysbrydion? Bobl bach! Mawredd mawr! Nefi wen! YSBRYDION!?!?!

Wel, roedd pawb (ond fi!) eisiau mynd ac felly aethon ni i lawr i'r seler. Roedd hi'n dywyll iawn yno. Felly, defnyddion ni ein ffonau i roi golau i ni.

Cerddon ni'n dawel drwy'r seler. Roedd hi'n sbûci iawn. Roedd hi'n oer iawn hefyd. Ych a fi! Roedd y seler yn dawel iawn ond, yn sydyn, dwedodd David, "Shh, dw i'n gallu clywed sŵn!"

Stopion ni. "Diffoddwch y ffonau," dwedodd Liam. Diffoddon ni'r ffonau ac arhoson ni'n dawel yn y seler heb siw na miw. O, roedd hi'n oer iawn nawr – ac roedd hi'n dywyll iawn hefyd. Roedd hi mor dawel â'r bedd.

Yn sydyn, clywon ni sŵn cerdded yn y seler ac yna teimlais i law oer ar fy llaw i. "Paid!" dwedais i wrth Liam. (Roeddwn i'n meddwl bod Liam yn chwarae tric!)

"Paid!" gweiddodd Kitty. "Stopia, Liam ... stopia." Goleuon ni'r ffonau ... doedd Liam ddim yno.

"Ble mae Liam?" gofynnodd Kitty ac yna roedd sŵn ofnadwy. Rhedon ni nerth ein traed o'r seler ... i fyny'r grisiau ac yn ôl i'r parti. Ond doedd Liam ddim yno.

Ble mae Liam nawr?

## ⓘ Idiomaus

heb siw na miw	without a sound
mor dawel â'r bedd	as quiet as the grave
nerth ein traed	as fast as our feet would carry us

Help

### Geirfa

anhygoel                    incredible, awesome

ysbryd, ysbrydion        ghost, ghosts

felly                        so

tywyll                      dark

defnyddio                  to use

golau                        light

yn dawel                    quietly

diffodd                     to switch off

teimlo to feel

llaw hand

goleuo to light

# Siarad â ...

Rydych chi'n mynd i wyllo ffilm. Dyma ychydig o help i chi, os ydych chi eisiau help.

## Help

Geirfa	
arall	else
chwilio am	to look for
trysor	treasure
diwrnod	day
roeddwn i'n ...	I was ...
heibio	past
elusen	charity
rhywbeth	something
darganfyddwr	detector
dau ddeg y cant	twenty per cent
i ffwrdd	off
cae	field
rhaw	spade

palais i	I dug
twll	hole
digwyddodd	happened
hwn	this
gwerthfawr	valuable



## FAINT oedd y sgôr?

# Y Cylchgrawn Chwaraeon

### Beth ddigwyddodd?

Chwefor 10, 2015

Roedd gêm rygbi "ddiddorol" iawn yng Ngwlad Belg ddydd Sadwrn diwethaf.

Roedd y gêm rhwng timau Soignies a Kituro, o Frwsel. Mae Soignies yn dîm da iawn fel arfer ond ddydd Sadwrn collon nhw o dri chant pum deg chwech (356) i dri (3). Ie, 356 i 3!

Teithiodd tîm Soginies i Frwsel i chwarae yn erbyn Kituro.

Roedd y gêm i fod i ddechrau am dri o'r gloch y prynhawn ac roedd pawb yn barod - pawb ond y dyfarnwr. Doedd e

ddim yno.

Arhosodd y chwaraewyr am y dyfarnwr - ond ddaeth e ddim. Felly, aeth llawer o dîm Soignies adre.

Ond ...

... tua 4 o'r gloch, daeth dyfarnwr arall a dechreuodd y gêm am 4.30 - heb lawer o chwaraewyr Soignies. Roedd rhaid chwarae'r gêm - neu golli pwynt.

Sgoriodd Kituro 356 pwynt.

Sgoriodd Soignies 3 phwynt.

Sgôr anhygoel!



Help

Geirfa

Gwlad Belg      Belgium

Brwsel	Brussels
diwethaf	last
rhwng	between
colli	to lose
digwyddodd	happened
yn erbyn	against
i fod i	supposed to
dechrau	to start
pawb	everyone
dyfarnwr	referee
felly	so
heb	without

# Dyddiadur Patagonia

01 Awst 1865

Rydyn ni yma!

Gadawais i Lerpwl ar 28 Mai ar long o'r enw Mimosa. Roeddwn i'n teimlo'n hapus iawn achos roeddwn i'n teithio i Batagonia, De America. Cyffrous iawn!

Roedd y daith yn anodd achos roedd y tywydd yn ddrwg. Roedd hi'n wyntog ac yn stormus iawn ac roeddwn i'n sâl. Roeddwn i'n teimlo'n nerfus ac yn ofnus weithiau.

Roedd tua cant pum deg (150) o bobl o Gymru ar y llong. Maen nhw'n bobl hyfryd a mwynheuais i siarad gyda nhw.

Teithion ni am ddau fis ac yna, un diwrnod, gwelais i Batagonia. "Dewch - Dyma Batagonia," gweiddais i a rhedodd pawb i weld.

Ar 28 Gorffennaf, felly, cerddais i o'r llong. Roeddwn i'n teimlo'n hapus iawn. Roeddwn i wrth fy modd ond roeddwn i wedi blino ac roeddwn i eisiau bwyd.

Ond wedyn, roedd problemau. Dim llawer o fwyd! Dim llawer o ddŵr! Dim cartrefi i ni! Es i i fyw mewn ogof-ac roedd hi'n stormus iawn eto.

Yfory, rydyn ni'n mynd i deithio achos rydyn ni eisiau cael lle arall i fyw.

Nos da.



## **i Cofiwch:**

Roeddwn i ...

I was ...

Roedd ...

... was ... / There was ...

Roedd hi ...

It was ...

Roedden ni ...

We were ...

Help

## Geirfa

gadawais i	I left
Lerpwl	Liverpool
llong	ship
anodd	difficult
weithiau	sometimes
tua	about
mis	month
gweiddi	to shout
wedyn	then
ogof	cave
lle	place
arall	another

# Beth oedd o?

Rydych chi'n mynd i wrando ar ddarn o newyddion.

Dyma ychydig o help i chi – os ydych chi eisiau help.

## Help

### Geirfa

sioc	shock
mynd adre	to go home
rhyfedd	strange
rhywbeth	something
awyr	sky
roeddwon i'n	I was
twyll	dark
chwilio am	to look for
deialu	to dial
pwy aŵyr?	who knows?

# Pwy wnaeth e?

## Y Parti



Nos Sadwrn, roedd parti mawr yn y Tŷ Mawr, cartref Mr Joshua Holmes, achos roedd parti pen-blwydd Alice, merch Joshua.

Roedd llawer o bobl yno ac roedden nhw'n cael amser gwych. Roedd llawer o fwyd ... llawer o ddiod ... llawer o hwyl. Roedd band gwych yn chwarae ac roedd pawb yn dawnsio.

Am hanner awr wedi naw, aeth Alice Holmes allan o'r parti achos roedd hi'n teimlo'n sâl.

Am chwarter i ddeg, aeth Sam Wilkins, cariad Alice, allan o'r parti i chwilio am Alice.

Am ddeg munud i ddeg, aeth Mrs Belinda Holmes, gwraig Mr Joshua Holmes, allan i chwilio am Mr Holmes achos doedd e ddim yn y parti.

Am ddeg munud wedi deg, aeth Joseph Holmes allan o'r parti achos roedd e eisiau coffi.

Am chwarter wedi deg, aeth Catrin Price, ffrind Mr Joshua Holmes, brawd Mr Joshua Holmes, allan i'r tŷ bach ... ac yna sgrechiodd hi ... a sgrechiodd hi ... a sgrechiodd hi. Rhedodd pawb i weld beth oedd y broblem.

Roedd drws y tŷ bach ar agor ... roedd Catrin yn sefyll tu allan i'r tŷ bach yn sgrechian achos roedd Joshua Holmes yn gorwedd ar y llawr . Roedd e wedi marw.

Tybed ...

Pwy wnaeth e?

Sut?

Pam?

Help

### Geirfa

cartref	home
llawer o	lots of
teimlo'n sâl	to feel ill
chwilio am	to look for
sgrechian	to scream
sefyll	to stand
gorwedd	to lie
llawr	floor
wedi marw	dead
tybed	I wonder